

Parlys Plecsws Breichiol Obstetregol (Parlys erbs) Gwybodaeth i ysgolion

Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol i Blant a Phobl Ifanc

Parlys Plecsws Breichiol Obstetregol (Parlys Erbs) - Beth ydyw?

Mae'r plecsws breichiol yn rhwydwaith o 5 nerf sy'n dod o linyn asgwrn y cefn i'r gwddf i mewn i'r fraich. Trwy'r nerfau hyn mae'r ymennydd yn anfon signalau trydanol i gyhyrau a croen y fraich a'r llaw. Mae pob nerf yn rhoi symudedd a theimlad i ddarnau penodol yn y fraich a'r llaw.


Gall Parlys Plecsws Breichiol Obstetregol (Parlys Erbs) ddigwydd yn ystod genedigaeth; ar ôl i ben y baban ddod allan, mae'n bosibl i ysgwydd y baban fynd yn sownd ym mhelfis y fam. Ar y cam hwn, mae'n bwysig iawn i'r babi gael ei eni'n gyflym er mwyn atal difrod i'r ymennydd oherwydd diffyg ocsigen. Er mwyn rhyddhau'r ysgwydd, gellir defnyddio amrywiaeth o symudiadau a gallant arwain at ddifrod i nerfau'r fraich. Ni all nerfau a ddifrodir drosglwyddo'r signalau trydanol hyn o'r ymennydd ac felly ni fydd y cyhyrau a reolir gan y nerf yn gweithio a bydd y croen y mae'r nerf sydd wedi'i anafu yn ei gyflenwi yn colli teimlad.

Er y bydd y rhan fwyaf o nerfau'n gwella dros amser (weithiau bydd angen llawdriniaeth), mae plant weithiau'n cael gwendid parhaus mewn cyhyrau penodol. Mae'n bosibl felly na allant symud y fraich yn llawn, a bod y cyhyrau'n dynn, yn dibynnu ar sut maen nhw'n gwella.

Sut gall Staff Ysgol helpu Plentyn â PPBO?

Bydd pob plentyn yn wahanol a bydd angen strategaethau ymdopi gwahanol i reoli ei anawsterau i sicrhau ei fod yn cyrraedd ei botensial llawn. Mae'n bwysig i staff yr ysgol (gyda chaniatâd rhieni) wybod am anawsterau'r plentyn fel y gall gefnogi'r plentyn yn ddigonol. Gall therapydd galwedigaethol roi cyngor i chi ar ôl asesu anghenion unigol y plentyn. Er nad yw strategaethau'n addas i bawb â PPBO, gallai'r plentyn gael budd o fabwysiadu rhai o'r strategaethau canlynol:

Rheoli'r Ystafell Ddosbarth:



Mae angen i ysgolion fod yn hyblyg ac yn barod i addasu gweithgareddau i blant â PPBO. Bydd eich ThG yn rhoi cyngor i chi ar unrhyw strategaethau a allai helpu, a allai gynnwys:

- Rhoi amser ychwanegol i gwblhau gwaith.
- Defnyddio taflenni gwaith i leihau faint o ysgrifennu sydd angen ei wneud.
- Defnyddio strategaethau i gynorthwyo â datblygu ysgrifennu (rhaglenni echddygol synhwyrdd, techneg llaw dros law).
- Defnyddio offer wedi'i addasu fel bwrdd ysgrifennu ar ongl a gafaewyr pensil trwchus i gynorthwyo â safle'r lle a chryfder ei ddal, a rîl di-lithro Dycem i atal eitemau rhag symud os caiff y plentyn drafferth sefydlogi pethau gyda'r llaw yr effeithir arni.
- Gall darpariaeth TG gael ei hasesu gan yr AALL os nad yw strategaethau eraill yn gweithio.
- Rhoi pethau defnyddiol i'r plentyn eu gwneud yn yr ysgol fel y gall gwblhau a gwella hunan-barch a hunan-hyder.

Gweithrediad y dwylo:



Mae gweithrediad y dwylo a sefydlu'r brif law a ddefnyddir yn aml yn broblemus i blant â PPBO. Caff plant fudd o allu dewis pa law y maen nhw'n ei defnyddio fel y brif law.

Efallai nad y llaw naturiol fydd hon. Mae ymchwil wedi dangos bod plant a orfodir i ddefnyddio eu llaw ail ddewis yn gallu cael anawsterau gwybyddol a chanfyddiadol, a bod yn arafach ac fleriach yn eu gwaith na'u cyfoedion.

Mae'n bwysig annog y plentyn i ddefnyddio'r ddwy law gyda'i gilydd cymaint â phosibl. Nid yw bob amser yn bosibl i blentyn wneud symudiadau llawdrin â'r llaw a effeithir, ond gall gael ei ddefnyddio i sefydlogi eitemau. Yn ei thro, bydd defnyddio'r llaw yn fwy yn gwella adborth synhwyrdd i'r fraich honno ac yn gwella ymwybyddiaeth y plentyn o'r fraich, gan wneud i ddefnydd gweithrediadol fod yn fwy tebygol o ddatblygu.

Gwisgo:



Caiff y rhan fwyaf o blant â pharlys Erb drafferth codi eu braich uwch yr ysgwydd. Gallai fod angen i blant wneud hyn yn yr ysgol ar gyfer addysg gorfforol a gwisgo. Dylai plentyn gael ei atgyfeirio at ThG os caiff drafferth gwisgo i benderfynu a oes modd defnyddio ffordd arall o wisgo neu ddillad arbennig. Gall yr ysgol helpu drwy roi mwy o amser i'r plentyn wisgo a/neu roi cymorth gan oedolyn.

Gall ThG awgrymu'r canlynol:

- Mathau penodol o ddillad gyda/heb ffastiau penodol, dillad sy'n ymestyn neu sydd 1 maint yn fwy nag y mae'r plentyn ei angen.

- Dysgu'r plentyn ffordd wahanol o wisgo i wneud yn iawn am yr ystod symud wael a/neu afael wan.
- Dillad wedi'i addasu: lastig neu lasys 1 llaw, felcro yn lle botymau.

Amser Cinio ac Egwyl:



Gall agor pecynnau a chario hambwrdd fod yn anodd i blant nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ddwy law'n llawn. Gall yr ysgol ddyrannu rhywun i helpu gyda hyn. Gall ThG awgrymu dulliau wedi'u haddasu neu offer wedi'i addasu fel hambwrdd unllaw, defnyddio cynwysyddion sy'n haws i'w hagor neu ofyn i rieni roi rhai bwydydd, fel creision, mewn cynhwysydd gwahanol.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r therapydd galwedigaethol:-

Lleoliad..... Rhif Cyswllt

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**